

Adroddiad Arolygu Gwasanaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (Dirybudd)

Ysbyty Aber-bîg, Elysium Healthcare

Dyddiad yr arolygiad: 31 Mawrth, 1 a 2 Ebrill 2025

Dyddiad cyhoeddi: 3 Gorffennaf 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom.....	5
2. Crynodeb o'r arolygiad	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym	9
Ansawdd Profiad y Claf.....	9
Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	14
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	21
4. Y camau nesaf	24
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	25
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	26
Atodiad C - Cynllun gwella.....	28

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad iechyd meddwl annibynnol dirybudd o Ysbyty Aber-bîg ar 31 Mawrth, 1 a 2 Ebrill 2025.

Adolygwyd wardiau canlynol yr ysbyty yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward Bevan - 12 o welyau sy'n darparu gwasanaethau diogelwch isel
- Ward Taliesin - 15 o welyau sy'n darparu gwasanaethau diogelwch canolig.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd gofal iechyd AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol (yr oedd un ohonynt yn adolygydd enwebedig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl) ac un adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o uwch-arolygwyr AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd chwe holiadur gan gleifion neu ofalwyr. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn mynegi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth. Dim ond saith holiadur a gwblhawyd gan y staff. Fodd bynnag, gwnaethom siarad â'r staff a gofalwyr yn ystod ein harolygiad ac mae rhai o'u sylwadau wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu siarad ag aelod o staff pan fo angen, eu bod yn hapus yn yr ysbyty, a bod y staff yn garedig ac yn gymwynasgar. Roedd data eraill a gawsom drwy adborth mewnol yr ysbyty hefyd yn gadarnhaol ar y cyfan.

Roedd amrywiaeth o weithgareddau ar waith i gynnig therapiâu i gleifion, i'w cefnogi a'u hysgogi fel rhan o'u hadferiad. Roedd yn gadarnhaol gweld y staff yn cefnogi'r cleifion i gymryd rhan mewn gweithgareddau, fel coginio, snwcer, gemau bwrdd a defnyddio cyfarpar campfa. Fodd bynnag, dywedodd y cleifion wrthym eu bod am gael mwy o gyfleoedd i gael cyfnod o absenoldeb yn y gymuned, a bod prinder staff, ceir a gyrwyr yn aml yn eu hatal rhag gwneud hynny.

Roedd gan y cleifion eu hystafelloedd gwely eu hunain, a oedd yn rhoi preifatrwydd iddynt, ac yn helpu'r staff i gynnal urddas y cleifion.

At ei gilydd, gwelsom fod y cleifion yn cael gofal amserol, a bod eu hanghenion yn cael eu hasesu'n brydlon wrth iddynt gael eu derbyn i'r ysbyty. Roedd y staff yn darparu gofal ac yn helpu'r cleifion pan fo angen. Roedd y staff yn wybodus am bob claf ac yn ymdrechu i ddarparu gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn. Gwelsom garedigrwydd, cynhesrwydd a pharch rhwng y staff a'r cleifion.

Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion yn canmol y staff a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn cael eu trin yn dda gan y staff a'u bod yn teimlo'n ddiogel. Yn ystod yr arolygiad, nodwyd bod y staff yn ymddwyn mewn ffordd gwrtais, ofalgar ac ymatebol pan fyddai'r cleifion yn mynd atynt. Drwy gydol yr arolygiad, gwelodd y tîm amgylchedd tawel, cynhwysol a phroffesiynol iawn yn yr ysbyty.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Y cyfle i gleifion gael cyfnod o absenoldeb yn y gymuned
- Cerbydau addas i'r staff.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwaith tîm da a staff sy'n llawn cymhelliant
- Roedd y cleifion yn canmol y staff gan ddweud eu bod yn cael eu trin yn dda.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod systemau a threfniadau llywodraethu priodol ar waith, a oedd yn helpu i sicrhau bod y cleifion yn cael gofal diogel ac effeithiol. Roedd amrywiaeth o bolisiau iechyd a diogelwch cyfredol ar waith ac roedd amrywiaeth o asesiadau risg wedi cael eu cwblhau, fel asesiadau risg ar gyfer pwyntiau clymu ac asesiadau risg tân. Gwelsom hefyd dystiolaeth bod archwiliadau clinigol effeithiol yn cael eu cynnal, a oedd yn cael eu monitro gan ddirprwy reolwr yr ysbyty.

Roedd amgylchedd yr ysbyty yn lân ac yn daclus, ond roedd angen gwneud gwelliannau mewn rhai ardaloedd. Ymysg y materion roedd marciau a staeniau ar y carpedi, waliau yr oedd angen eu peintio, dodrefn wedi'i ddifrodi a phrinder seddi mewn rhai ardaloedd. Hefyd, roedd angen trwsio rhai gosodiadau a ffitiadau, fel bleinds a drysau, neu osod rhai newydd yn eu lle.

Gwelsom sawl rownd meddyginiaeth a gwnaethom nodi bod y staff yn cynnal y rowndiau hyn mewn modd priodol a phroffesiynol gan ryngweithio â'r cleifion mewn ffordd barchus ac ystyriol.

Roedd prosesau priodol ar waith i sicrhau bod y staff yn diogelu oedolion a phlant agored i niwed, ac roedd achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl yr angen. Roedd gweithdrefnau diogelu, wedi'u cefnogi gan Weithdrefnau Diogelu Cymru, ar gael i staff yr ysbyty eu gweld drwy'r fewnwyd.

Gwelsom fod angen gwneud rhai gwelliannau yn y dogfennau cynllunio gofal, gan gynnwys diweddarau cynlluniau gofal ar ôl Arolygiadau Gofal Annibynnol a sicrhau bod y broses o nodi perthnasau agosaf yn cael ei dogfennu mewn cofnodion cynllunio gofal.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dogfennau cynllunio gofal
- Materion amgylcheddol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Archwiliadau clinigol
- Prosesau diogel ac effeithiol ar gyfer rheoli meddyginiaethau.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom dîm o staff cyfeillgar a phroffesiynol a oedd yn ymrwymedig i ddarparu gofal o ansawdd uchel i'r cleifion. Roedd y staff, rheolwr yr ysbyty a'r tîm amlddisgyblaethol yn dangos arweinyddiaeth ymroddedig a brwdfrydig.

Roedd strwythur sefydliadol amlwg ar waith, a oedd yn cynnig llinellau rheoli ac atebolrwydd clir. Roedd systemau effeithiol yn darparu mynediad at gymorth gan y tîm rheoli yn ystod y dydd, gyda system ar alwad ar waith yn ystod y nos.

Roedd y staff o'r farn bod y diwylliant ar y ward yn gadarnhaol, ac y byddent yn teimlo'n hyderus yn codi pryder a'u bod yn gwybod sut i wneud hynny, a gwelsom dystiolaeth i gadarnhau hyn.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn canmol y cymorth gan gydweithwyr a oedd yn gweithio yn yr ysbyty, gan gyfeirio at ethos da o weithio fel tîm.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd cyfarfodydd staff a chleifion yn cael eu cynnal yn rheolaidd
- Roedd ffigurau cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol yn dda
- Roedd rheolwr yr ysbyty a'r tîm amlddisgyblaethol yn darparu arweinyddiaeth gadarn i'r staff.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Gwnaethom ystyried adborth yr oedd yr ysbyty wedi'i gael gan gleifion mewnol, unrhyw gwynion a data o drafodaethau â chleifion, i'n helpu i ddeall profiad cyffredinol y cleifion. Roedd yr adborth yn gadarnhaol. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn gallu siarad ag aelod o staff pan fo angen, eu bod yn hapus yn yr ysbyty, a bod y staff yn garedig ac yn gymwynasgar.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Mae'r ysbyty yn lleoliad parchus a gofalggar da. Ac mae wedi fy helpu ar fy llwybr gofal i gyflawni fy nodau. Rwyf wedi teimlo'n ddiogel ac fy mod yn cael gofal yn ystod fy nghyfnod yn Aber-bîg.”

“Mae'r staff yn fy nhrin yn dda - parchus iawn a phawb yn ymlacedig.”

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd amrywiaeth o gyfleusterau ar gael yn Ysbyty Aber-bîg er mwyn helpu i ddarparu therapiâu a gweithgareddau i'r cleifion. Yn ogystal, mae'r cleifion hynny sydd wedi'u hawdurdodi i adael yr ysbyty yn cael cyfleoedd rheolaidd i ddefnyddio gwasanaethau cymunedol.

Gwelsom y cleifion yn yr ysbyty yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau drwy gydol yr arolygiad. Roedd y staff Therapi Galwedigaethol a'r cydgysylltydd gweithgareddau yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau, ac roedd hi'n amlwg bod yr adran therapi galwedigaethol yn cynnig gweithgareddau therapiwtig llesol i'r grŵp cleifion, ar y cyd â'r cydgysylltydd gweithgareddau. Roedd amserlen gweithgareddau ar waith hefyd ac roedd y gweithgareddau'n cynnwys celf a chrefft, cerddoriaeth, snwcer a defnyddio campfa'r ysbyty. Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r cleifion wrthym fod eu defnydd o'r gampfa yn gyfyngedig gan nad oedd hyfforddwr ffitrwydd ar gael.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig wella argaeledd y gampfa i'r cleifion.

At hynny, roedd cegin therapi galwedigaethol ar gael i'r cleifion ei defnyddio i baratoi prydau. Gwelwyd y cleifion yn defnyddio'r ardal hon yn ystod yr arolygiad.

Roedd ardaloedd gardd awyr agored ar gael i'r cleifion hefyd, ond prin oedd yr ardaloedd i'r cleifion eistedd a threulio amser yn yr ardd ar ward Taliesin.

Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried gosod seddi addas yng ngardd ward Taliesin.

Roedd gweithwyr proffesiynol eraill, fel ffisiotherapyddion a deietegwyr, ar gael i'r cleifion yn seiliedig ar eu hanghenion. Roedd meddyg teulu, deintydd, a gweithwyr iechyd corfforol proffesiynol eraill ar gael i'r cleifion hefyd, fel y bo angen. Roedd cofnodion y cleifion yn dangos bod asesiadau corfforol priodol yn cael eu cynnal a bod prosesau monitro parhaus ar waith.

Urddas a pharch

Gwelsom fod y staff ar bob lefel yn ymgysylltu â'r cleifion mewn modd priodol, ac yn eu trin ag urddas a pharch.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn frwdfrydig am eu rolau a'r modd roeddent yn cefnogi'r cleifion ac yn gofalu amdanynt. Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r staff yn cymryd amser i siarad â'r cleifion ac i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion neu bryderon a oedd ganddynt. Roedd hyn yn awgrymu agweddau ymatebol a gofalgarn gan y staff tuag at y cleifion.

Roedd cyfleusterau ensuite yn ystafell pob claf. Roedd ystafelloedd ymolchi cymunedol ar gael, a gwelsom y staff yn parchu preifatrwydd y cleifion drwy gnocio ar ddrysau'r ystafelloedd gwely a'r ystafelloedd ymolchi cyn mynd i mewn.

Mae paneli arsylwi wedi'u gosod ar ystafell pob claf y gellir eu hagor neu eu cau o'r tu allan, er mwyn galluogi'r staff i fonitro person pan fydd angen. Gall y cleifion gloi drysau eu hystafelloedd gwely; fodd bynnag, gallai'r staff eu hagor o hyd pan fo angen.

Roedd pwyntiau galw am nyrs ar gael o gwmpas yr ysbyty ac yn ystafelloedd gwely ac ystafelloedd ymolchi'r cleifion, er mwyn i'r cleifion allu galw am help pe bai angen.

Roedd y cleifion yn gallu personoli eu hystafelloedd a storio eu heiddo personol. Roedd asesiadau risg yn cael eu cynnal ar gyfer pob eitem personol er mwyn helpu i gynnal diogelwch pob claf. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio ffonau symudol a dyfeisiau electronig personol eraill. Roedd ffôn hefyd ar gael i'r cleifion ei ddefnyddio i gysylltu â ffrindiau neu deulu pe byddai angen, ac roedd dyfeisiau electronig ar gael ar yr unedau i'r cleifion eu defnyddio.

Roedd gan y staff larymau personol a setiau radio, a rhoddir larymau i ymwelwyr pan fo angen. Dywedwyd wrthym fod y system setiau radio yn gweithio'n dda yn yr amgylchedd ac nad oedd y staff wedi codi unrhyw bryderon am y larymau na'r setiau radio.

Roedd ystafell golchi dillad a oedd yn cynnwys cyfarpar digonol ar gael hefyd i'r cleifion ei defnyddio dan oruchwyliaeth, ac anogir y cleifion i olchi eu dillad eu hunain er mwyn annog annibyniaeth.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Roedd yr hysbysfyrddau i gleifion a oedd i'w gweld yn yr ysbyty yn cynnwys gwybodaeth berthnasol er mwyn helpu'r cleifion a'u teuluoedd i ddeall eu gofal. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth megis yr amserlen weithgareddau wythnosol a gwasanaethau eirioli. Roedd y posteri a'r taflenni gwybodaeth am eiriolaeth a oedd yn cael eu harddangos wedi dyddio ac nid oeddent yn cynnwys manylion y darparwr eiriolaeth newydd. Hefyd, prin oedd gwybodaeth y staff am y gwasanaethau eirioli a oedd ar gael yn yr ysbyty. Datgelodd cyfweiliadau ag aelodau o'r staff a chleifion ddiffyg ymwybyddiaeth ynghylch argaeledd gwasanaethau cyfieithu.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl ddeunyddiau eiriolaeth yn cael eu diweddarau i adlewyrchu manylion y darparwr newydd.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y cleifion a'r staff yn ymwybodol o'r gwasanaethau cyfieithu sydd ar gael.

Roedd tystysgrifau cofrestru gan AGIC a gwybodaeth am sut i wneud cwyn i'w gweld yn y dderbynfaf. Roedd y wybodaeth hon hefyd ar gael yn Gymraeg. Roedd gwybodaeth am sut i wneud cwyn wedi'i harddangos yn glir. Roedd y llyfrau cwynion ar y ddwy ward yn dangos mai anaml yr oedd cwynion yn cael eu gwneud ond eu bod yn cael eu rheoli'n brydlon yn unol â'r polisi.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu siarad ag aelod o staff pan fydd angen. Gwnaethant hefyd ddweud eu bod yn hapus yn yr ysbyty, a bod y staff yn garedig ac yn barod i'w helpu. Roedd yn ymddangos bod parch amlwg a chydberthnasau cryf rhwng y staff, y cleifion ac aelodau o'u teulu/eu gofawyr.

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom y staff yn ymgysylltu ac yn cyfathrebu mewn ffordd gadarnhaol a sensitif â'r cleifion, gan gymryd amser i'w helpu i ddeall eu gofal, a defnyddio iaith neu ddulliau cyfathrebu priodol.

Ar gyfer cyfarfodydd penodol, a lle y bo'n gymwys, gall y cleifion gael cymorth gan gyrff allanol i roi cymorth ac arweiniad, megis cyfreithwyr neu wasanaeth eirioli dros gleifion. Gyda chytundeb y cleifion, lle bynnag y bo'n bosibl, roedd eu teuluoedd neu eu gofalwyr yn cael eu cynnwys yn y cyfarfodydd hyn.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd gan y cleifion eu cynllunydd gweithgareddau wythnosol eu hunain, gan gynnwys sesiynau unigol a sesiynau grŵp yn yr ysbyty ac yn y gymuned (os oeddent wedi cael yr awdurdod priodol i wneud hynny). Yn ystod yr arolygiad, gwelsom y staff a'r cleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr ysbyty ac yn y gymuned.

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn mwynhau'r sesiynau y mae'r adran therapi galwedigaethol a'r cydgysylltydd gweithgareddau yn eu trefnu ar eu cyfer. Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r cleifion wrthym fod cyfnodau o absenoldeb yn y gymuned a gweithgareddau yn aml yn cael eu canslo oherwydd prinder staff a phrinder gyrwyr. Hefyd, nododd y staff fod eu gallu i gludo cleifion wedi'i gyfyngu gan mai dim ond hyfforddiant i yrru cerbydau awtomatig roeddent wedi'i gael, ond bod y mwyafrif o gerbydau'r ysbyty yn rhai â llaw.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau nad yw cyfyngiadau trafnidiaeth a phroblemau staffio yn effeithio ar gyfleoedd y cleifion i gael cyfnod o absenoldeb yn y gymuned.

Gwelsom y staff yn parchu preifatrwydd y cleifion. Er enghraifft, drwy ddeall pan oedd yn well gan y cleifion gael llonydd a hwyluso hyn, ond gan ar yr un pryd gynnal lefelau arsylwi priodol.

Roedd y cleifion yn cael eu cynnwys yn llawn mewn adolygiadau amlddisgyblaethol misol. Gwelsom dystiolaeth fod cynlluniau gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn a bod cymorth yn cael ei roi mewn ffordd strwythuredig er mwyn galluogi cleifion i gyflawni eu nodau unigol. Roedd y cynlluniau gofal yn fanwl ac wedi'u personoli, a oedd yn helpu'r ysbyty i ddarparu gofal cynhwysfawr i'r cleifion.

Roedd cyfarfod trosglwyddo yn cael ei gynnal bob bore yn ystod yr wythnos er mwyn i'r staff nyrsio roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r tîm amlddisgyblaethol am unrhyw bryderon, materion neu ddigwyddiadau o'r diwrnod blaenorol. Roedd y cyfarfodydd hyn wedi'u strwythuro'n dda ac roeddent yn cwmpasu'r prif feysydd fel diogelwch cleifion, digwyddiadau, diogelu a chynllunio.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Gwelsom fod trefniadau da ar waith i hyrwyddo a diogelu hawliau'r cleifion.

Roedd cyfleusterau ar gael i'r cleifion weld eu teuluoedd yn breifat. Roedd ystafelloedd hefyd ar gael i'r cleifion dreulio amser ar wahân i'r cleifion eraill yn unol â'u hanghenion a'u dymuniadau.

Roedd y ddogfennaeth gyfreithiol yn ymwneud â chadw cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Roedd gwasanaethau eirioli ar gael i bob claf, a dywedwyd wrthym fod eiriolwyr yn ymweld â'r ysbyty.

Dywedodd y staff wrthym fod cleifion yn cael eu gwahodd i fod yn rhan o gyfarfodydd y tîm aml-ddisgyblaethol ar eu cyfer a bod aelodau o'r teulu neu eiriolwyr yn cael eu hannog i gymryd rhan lle y bo'n bosibl.

Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, gwnaethant ddangos eu bod yn rhoi sylw priodol i gynnal hawliau'r cleifion a dewisiadau cleifion unigol. Roedd y cynlluniau gofal a thriniaeth a welsom yn dangos bod anghenion cymdeithasol, diwylliannol ac ysbrydol y cleifion wedi cael eu hystyried. Gwelsom fod gan yr ysbyty bolisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant priodol a oedd ar gael i helpu i sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth y cleifion yn cael eu parchu.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Roedd cyfarfodydd cleifion ac arolygon cleifion yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn galluogi'r cleifion i roi adborth ar y gofal a ddarperir yn yr ysbyty. Roedd gwybodaeth ar gael hefyd i berthnasau a gofalwyr ynghylch sut i roi adborth.

Roedd polisi a gweithdrefn ar waith ar gyfer ymdrin â chwynion. Roedd y polisi yn cynnig strwythur ar gyfer ymdrin â phob cwyn yn yr ysbyty. Roedd yn amlwg bod person annibynnol yn cael ei bennu i ymchwilio i gwynion a bod camau yn cael eu cymryd yn unol â pholisi cwynion y darparwr cofrestredig er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â chwynion yn briodol. Gwnaethom edrych ar sampl o gwynion ffurfiol ac anffurfiol. Cadarnhawyd bod yr ysbyty wedi ymdrin â nhw yn unol â pholisi cwynion y sefydliad.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Gofal Diogel

Yr Amgylchedd

Gwelsom dystiolaeth o asesiadau risg amrywiol a oedd wedi cael eu cynnal, gan gynnwys asesiadau risg ar gyfer pwyntiau clymu. Dywedwyd wrthym am y gwiriadau amgylcheddol sy'n cael eu cwblhau a gwelsom dystiolaeth o'r gwiriadau wythnosol a gynhelir gan y rheolwr ym mhob rhan o'r ysbyty.

Gwelsom gyfarpar adfywio yn cael ei archwilio bob wythnos; roedd y staff wedi dogfennu pryd roedd y gwiriadau hyn wedi'u cynnal er mwyn sicrhau bod y cyfarpar ar gael ac nad oedd unrhyw ddyddiadau wedi mynd heibio.

Roedd cynllun parhad busnes ar waith i'w ddilyn pe byddai digwyddiad difrifol yn yr ysbyty. Roedd y rhain yn cynnwys digwyddiadau fel tân, colli cyflenwad dŵr a thrydan a thywydd difrifol. Roedd yr holl bolisiâu diogelwch tân yn gyfredol ac roedd yr holl asesiadau risg tân wedi cael eu cwblhau.

Roedd tystiolaeth o archwiliadau yn cael ei chofnodi'n electronig, ac roedd pob archwiliad yn gyfredol ac wedi'i gwblhau ar adeg yr arolygiad.

Ar y cyfan, roedd yr ysbyty yn lân ac yn daclus, ond roedd angen gwneud gwelliannau mewn rhai ardaloedd:

Ward Taliesin:

- Marciau a staeniau ar y carpedi yng nghoridorau'r ystafelloedd gwely; roedd angen ail-baentio rhai o'r waliau
- Stôl wedi'i difrodi yn yr ystafell gofal dwys
- Roedd y rhimyn o amgylch llawr yr ystafell ymolchi yn dod i ffwrdd ac roedd angen ei drwsio neu osod un newydd yn ei le
- Prinder seddi yn ardal yr ardd.

Ardal Cadw ar Wahân:

- Roedd angen trwsio'r bleinds a oedd wedi torri neu osod rhai newydd yn eu lle.

Ward Bevan:

- Drws ar goll yn yr ystafell aml-ffydd

- Roedd drws yr ystafell aml-ffydd ar Ystafell Wely 5 ac roedd angen gosod un newydd yn ei le
- Cap ar goll ar ffenestr Ystafell Wely 11
- Cadair wedi'i difrodi yn yr ystafell dawel ac roedd angen trwsio dwy gadair yn y lolf a neu osod rhai newydd yn eu lle.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd system electronig ar waith ar gyfer cofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau a oedd yn ymwneud â diogelwch cleifion. Roedd sampl o ffurflenni digwyddiadau y gwnaethom edrych arnynt yn ystod yr arolygiad yn dangos bod y staff yn cwblhau ffurflenni manwl.

Cadarnhaodd y staff fod sesiynau dadfriffio yn cael eu cynnal ar ôl digwyddiadau. Roedd y cyfarfodydd y gwnaethom arsylwi arnynt, a'r dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr arolygiad, yn dangos bod digwyddiadau a'r defnydd o ymyriadau atal yn gorfforol yn cael eu monitro a'u goruchwyllo'n fanwl. Roedd y data a welsom yn dangos mai anaml y defnyddir dulliau atal yn gorfforol yn yr ysbyty. Dim ond un achos o atal yn gorfforol a nodwyd yn ystod y tri mis diwethaf.

Pan gaiff ymyriadau corfforol eu defnyddio, caiff y technegau a ddefnyddir eu dewis gan ystyried y ffordd orau o ddiwallu anghenion cleifion unigol a bydd asesiad risg yn llywio hyn, gan roi ystyriaeth i risgiau yn sgil oedran, eiddilwch, problemau iechyd, hanes trawma ac anghenion crefyddol a diwylliannol. Cafodd hyn ei ddogfennu a gwelwyd tystiolaeth ohono yn y cofnodion cleifion a welsom.

Ar ôl unrhyw ddigwyddiad lle bu'n rhaid ymyrryd yn gorfforol, caiff y cleifion a'r staff eu gwahodd i gymryd rhan mewn sesiwn ddadfriffio sy'n canolbwyntio ar eu hiechyd a'u llesiant seicolegol a chorfforol. Cadarnhaodd y staff fod sesiynau dadfriffio yn cael eu cynnal a chadarnhawyd hyn gan y dystiolaeth a welsom yn ystod yr arolygiad.

Roedd amrywiaeth o bolisiau iechyd a diogelwch cyfredol ar waith.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod trefniadau atal a rheoli heintiau addas ar waith a oedd wedi'u cefnogi gan amrywiaeth o bolisiau cyfredol i gynnal diogelwch y cleifion a'r staff. Roedd archwiliadau rheolaidd wedi cael eu cwblhau ar y ward er mwyn adolygu glendid yr amgylchedd a sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau'r ysbyty. Roedd pob un ohonynt yn briodol ac roedd uwch-aelodau o staff y ward yn gwirio'r lefelau cydymffurfiaeth.

Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod y staff wedi cynnal yr asesiadau risg angenrheidiol a bod y polisiau a'r gweithdrefnau perthnasol wedi cael eu diweddarau'n briodol. Esboniodd y staff hefyd eu cyfrifoldebau o ran atal a rheoli heintiau.

Gwelsom fod digon o gyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael i'r staff a'u bod yn ei ddefnyddio'n briodol. Dywedodd y staff wrthym fod PPE ar gael yn hwylus iddynt bob amser, a gwelsom fod digon o gyfleusterau golchi a sychu dwylo a diheintio ar gael.

Roedd y cyfarpar glanhau wedi'i storio'n ddiogel, wedi'i drefnu'n briodol ac roedd trefniadau addas ar waith i waredu gwastraff domestig a gwastraff clinigol.

Roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol ar atal a rheoli heintiau ac roedd y gyfradd gydymffurfiaeth hon yn cael ei monitro'n barhaus er mwyn sicrhau bod y staff yn cwblhau'r hyfforddiant priodol.

Maeth

Roedd yr ysbyty yn darparu prydau bwyd rheolaidd i'r cleifion, ac roeddent yn dewis o fwydlenni a oedd yn newid bob wythnos.

Roedd y cleifion yn cael cymorth i ddiwallu eu hanghenion deietegol, a dywedwyd wrthym fod gofynion deietegol penodol yn cael eu bodloni fel y bo'n briodol.

Roedd yr ardaloedd bwyta yn lân ac yn daclus ac yn cynnig amgylchedd addas i'r cleifion fwyta eu prydau.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau a'u storio'n ddiogel. Gwelsom hefyd dystiolaeth bod tymheredd yr oergelloedd meddyginiaeth yn cael ei wirio'n rheolaidd er mwyn cynnal trefniadau storio diogel.

Roedd cabinet cyffuriau a reolir a oedd yn cyrraedd y safon ofynnol. Roedd llyfr cyffuriau a reolir a llyfr cyffuriau a all gael eu camddefnyddio ar gael ar y wardiau hefyd.

Gwelsom fod y fferyllfa yn rhoi mewnbwn rheolaidd ac yn cynnal archwiliad bob wythnos a oedd yn hwyluso'r broses o reoli, rhagnodi a rhoi meddyginiaethau ar y ddwy ward.

Gwelsom sawl rownd meddyginiaeth, a gwelsom fod y staff yn cynnal y rowndiau hyn mewn modd priodol a phroffesiynol, gan ryngweithio â'r cleifion mewn ffordd barchus ac ystyriol.

Gwelsom arferion a oedd yn sicrhau bod cyn lleied â phosibl o feddyginiaethau yn cael eu rhagnodi a'u bod yn cael eu rhagnodi yn y ffordd leiaf cyfyngol. Roedd y polisi meddyginiaeth yn gyfredol ac yn cael ei gadw yn yr ystafelloedd clinigol.

Roedd y Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth (Siartiau MAR) a welsom wedi'u cwblhau'n llawn gan y staff. Roedd hyn yn cynnwys cwblhau'r holl fanylion am y claf ar y dudalen flaen a thudalennau dilynol, ynghyd â'i statws cyfreithiol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd prosesau priodol ar waith i sicrhau bod y staff yn diogelu oedolion a phlant agored i niwed, gydag achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl yr angen.

Roedd gweithdrefnau diogelu, wedi'u cefnogi gan Weithdrefnau Diogelu Cymru, ar gael i staff yr ysbyty eu gweld drwy'r fewnwyd.

Cadarnhaodd staff yr ysbyty eu bod yn hyderus bod staff yn ymwybodol o'r weithdrefn gywir i'w dilyn pe bai ganddynt bryder yn ymwneud â diogelu. Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, roeddent yn gallu dangos gwybodaeth am y broses ar gyfer atgyfeirio achos diogelu.

Roedd yr ysbyty yn cyflogi gweithiwr cymdeithasol dynodedig a oedd yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â phartneriaid amlasiantaethol ac yn cydweithio â'r tîm staffio i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth yr aelodau o faterion diogelu.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd archwiliadau clinigol rheolaidd yn cael eu cynnal yn yr ysbyty a gwelsom dystiolaeth bod cyfarpar adfywio yn cael ei archwilio'n rheolaidd. Roedd y staff wedi dogfennu pryd roedd hyn wedi'i wneud er mwyn sicrhau bod y cyfarpar yn barod i'w ddefnyddio ac nad oedd unrhyw ddyddiadau wedi mynd heibio.

Yn ystod trafodaethau â'r staff, roedd yn glir eu bod yn ymwybodol o leoliadau torwyr clymau i'w defnyddio mewn argyfwng.

Roedd y cynllun storio ocsigen yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'r canllawiau; caiff asesiadau risg eu cwblhau ar gyfer yr ardaloedd clinigol gan gynnwys y cynllun storio ocsigen.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau llywodraethu priodol ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y staff yn rhoi gofal diogel a chlinigol effeithiol i'r cleifion.

Cadarnhaodd y staff fod sesiynau dadfriffio yn cael eu cynnal ar ôl digwyddiadau. Dangosodd y cyfarfodydd y gwnaethom eu mynychu a'r dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr arolygiad fod digwyddiadau, atgyfeiriadau diogelu a'r defnydd o ymyriadau corfforol yn cael eu monitro a'u hadolygu.

Roedd trefniadau ar waith i rannu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd o gwynion a digwyddiadau â'r staff yn yr ysbyty a'r sefydliad yn fwy cyffredinol.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd nifer o enghreifftiau o wella ansawdd a mentrau arloesol yn cael eu cynnal yn yr ysbyty. Mae rheolwr yr ysbyty wedi dechrau cynnwys dulliau adrodd straeon digidol er mwyn gwella prosesau ymgysylltu a chyfathrebu â'r cleifion. Mae pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant sy'n ystyriol o drawma i'w galluogi i gefnogi a mynd i'r afael ag anghenion emosiynol a seicolegol y cleifion yn well.

Hefyd, mae rheolwr yr ysbyty yn cymryd rhan mewn cwrs cadw gwenyn, ac mae cyfleoedd gwaith â thâl da i'r cleifion, gan eu helpu i feithrin sgiliau a phrofiad gwerthfawr, fel gweithio gyda'r mulod a'r geifr. At hynny, mae sawl menter a arweinir gan ddefnyddwyr gwasanaethau ar waith, gan gynnwys gorsaf radio tonnau awyr fewnol a chaffi ar y safle, sy'n cynnig cyfleoedd i'r cleifion gydweithio a chymdeithasu.

Mae rheolwr yr ysbyty hefyd yn rhan o fforwm rheolwyr Cymru gyfan, lle bydd rheolwyr ysbytai yn dod at ei gilydd i drafod y gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau a newidiadau i bolisiâu. Yna, bydd rheolwr yr ysbyty yn gweithredu ar y wybodaeth ac yn rhoi newidiadau ar waith i wella arferion yn yr ysbyty.

Roedd cydberthnasau amlasiantaethol da wedi cael eu meithrin gyda'r Heddlu lleol a'r tîm diogelu lleol. Mae'r heddlu lleol yn mynychu'r ysbyty yn rheolaidd er mwyn ymgysylltu â'r grŵp cleifion a'i addysgu.

Technoleg rheoli gwybodaeth a chyfathrebu

Roedd y systemau cofnodion cleifion cyfrifiadurol wedi'u datblygu'n dda ac yn darparu gwybodaeth o ansawdd uchel am ofal cleifion unigol. Roedd y system yn gynhwysfawr ac yn hawdd ei defnyddio.

Roedd systemau electronig da ar waith ar gyfer cofnodi digwyddiadau, archwiliadau clinigol ac archwiliadau llywodraethu, adnoddau dynol a systemau eraill yr ysbyty, a oedd yn helpu wrth reoli a rhedeg yr ysbyty. Nododd y staff fod y system electronig yn gweithio'n dda.

Rheoli cofnodion

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw ar ffurf electronig. Roedd cyfrinair ar y system electronig er mwyn atal achosion o fynediad heb awdurdod ac unrhyw achosion o dor-cyfrinachedd.

Ar y cyfan, gwelsom fod systemau cadarn ar waith i sicrhau bod gwybodaeth bersonol am y cleifion a'r staff yn cael ei chadw'n ddiogel. Roedd fframwaith llywodraethu gwybodaeth ffurfiol ar waith ac roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion cywir a sicrhau cyfrinachedd.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom edrych ar ddogfennau cadw statudol pum claf, a gwelsom fod pob un ohonynt yn cydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a Chod Ymarfer Cymru, 1983 (diwygiwyd 2016).

Roedd dogfennau electronig ar yr unedau yn cael eu storio'n ddiogel. Roedd y cofnodion a welsom yn drefnus, yn hawdd eu darllen ac yn cynnwys gwybodaeth fanwl a pherthnasol. Roeddent hefyd yn cydymffurfio'n llawn â gofynion cyfreithiol y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Gwnaethom edrych ar Gynlluniau Gofal a Thriniaeth saith claf a nodi'r materion canlynol:

- Roedd prinder amlwg o ran gwybodaeth yn nodi perthnasau agosaf ar y ffurflenni cyswllt ar Ward Bevan
- Er bod diweddariadau Adolygiadau Gofal Unigol yn rhoi tystiolaeth dda o safbwyntiau'r cleifion a dyfyniadau ganddynt, nid oedd hyn bob amser yn cael ei adlewyrchu yn yr holl gynlluniau gofal
- Er bod adolygiadau rheolaidd yn cael eu cynnal drwy Adolygiadau Gofal Unigol misol, nid oedd yn ymddangos bod y cynlluniau gofal yn cael eu diweddarau yn dilyn hyn

- Roedd rhai cynlluniau gofal yn dal i gynnwys gwybodaeth gyffredinol wedi dyddio am COVID-19, ac roedd y cynlluniau hyn yn weithredol o hyd, gyda nodau a sylwadau nad oeddent wedi cael eu diweddarau
- Nid oedd y cofnodion yn cynnwys manylion am sut roedd y cleifion yn cael eu cefnogi gan eu cynrychiolwyr.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cynlluniau gofal yn gynhwysfawr ac yn cynnwys gwybodaeth gywir a chyfredol sy'n adlewyrchu anghenion ac amgylchiadau presennol y cleifion.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan Staff

Gwnaethom wahodd y staff i gwblhau holiaduron AGIC ar ôl yr arolygiad er mwyn cael gwybod eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn yr ysbyty. Cawsom gyfanswm o saith ymateb gan aelodau o staff yn y lleoliad. Gwnaethom hefyd siarad ag aelodau o'r staff yn ystod yr arolygiad.

Dywedodd y staff wrthym eu bod y cael cyfleoedd i gael hyfforddiant ychwanegol i wella eu sgiliau. Gwnaethant hefyd rannu bod diwylliant yr ysbyty yn gadarnhaol, a'u bod yn teimlo'n hyderus i godi pryderon ac yn gyfarwydd â'r broses ar gyfer gwneud hynny. Roedd posteri wedi'u harddangos yn yr ardaloedd staffio yn cynnig cymorth. Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod yn mwynhau gweithio ar y wardiau a gwnaethant sôn am yr amgylchedd tîm cefnogol a oedd wedi'i greu yn yr ysbyty. Roedd yr arolwg staff hefyd yn cefnogi'r canfyddiadau hyn gyda sylwadau fel:

“Mae'r lefelau staffio da, y gofal effeithiol sy'n cael ei ddarparu, a'r hyfforddiant gorfodol a roddir i'r staff, yn golygu fy mod yn gwerthfawrogi gweithio yma. Rwy'n teimlo fy mod yn cael fy nghefnogi.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd strwythur sefydliadol clir ar waith, a oedd yn cynnig llinellau rheoli ac atebolrwydd clir. Roedd y trefniadau hyn wedi'u diffinio yn ystod y dydd, ac roedd systemau ar gyfer uwch-reolwyr a gwasanaeth ar alw ar waith ar gyfer y shift nos.

Roedd yn galonogol gweld uwch-aelodau o staff yn cyrraedd pan gawsant wybod bod y tîm arolygu wedi cyrraedd, a'u bod wrth law i roi cymorth ychwanegol i'r staff.

Roedd staff yr ysbyty yn dangos arweinyddiaeth glir, ymroddedig a brwdfrydig, ac yn cael eu cefnogi gan dimau amlddisgyblaethol llawn ymrwymiad a rheolwr yr ysbyty. Gallai'r staff ddisgrifio eu rolau ac roeddent yn ymddangos yn wybodus am anghenion gofal y rhan fwyaf o'r cleifion roeddent yn gyfrifol amdanynt.

Yn ystod ein hamser yn yr ysbyty, gwelsom ddiwylliant cadarnhaol a oedd yn cynnwys cydberthnasau da rhwng y staff y nodwyd gennym eu bod yn cydweithio'n dda fel tîm. Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn gadarnhaol am yr arweinyddiaeth yn yr ysbyty. Roedd y rhan fwyaf o'r staff hefyd yn canmol y cymorth gan gydweithwyr a oedd yn gweithio yn yr ysbyty, gan gyfeirio at ethos da o weithio fel tîm yn yr ysbyty.

Roedd trefniadau ar waith i rannu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd o gwynion a digwyddiadau yn gyflym â'r staff yn yr ysbyty ac yn y sefydliad yn fwy cyffredinol. Roedd hyn yn helpu i gynnal diogelwch cleifion ac i wella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd polisi a gweithdrefn ar waith ar gyfer ymdrin â chwynion. Roedd y polisi yn rhoi strwythur i ddelio â phob cwyn yn yr ysbyty.

Roedd trefniadau ar waith i rannu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd o gwynion a digwyddiadau yn gyflym â'r staff yn yr ysbyty ac yn y sefydliad yn fwy cyffredinol. Mae hyn yn helpu i hybu diogelwch cleifion ac i wella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Roedd aelodau newydd o staff ymgymryd â chyfnod sefydlu o dan oruchwyliaeth staff profiadol yn yr ysbyty. Dangosodd y staff dystiolaeth ddogfennol i ni gan esbonio'r systemau sefydlu sydd ar waith.

Roedd y lefelau staffio yn yr ysbyty yn dda ar y pryd, ac nid oedd unrhyw swyddi gwag ar adeg yr adolygiad.

Soniodd y staff y gwnaethom gyfweld â nhw yn llawn angerdd am eu rolau, a thrwy gydol yr arolygiad gwelsom dîm cryf a chydlynol a oedd yn cydweithio. Roedd y staff yn gallu cael gafael ar y rhan fwyaf o'r dogfennau y gofynnodd y tîm arolygu amdanynt mewn ffordd brydlon ac amserol, sy'n dangos bod systemau llywodraethu da ar waith.

Roedd systemau ar waith i sicrhau bod y broses recriwtio yn un agored a theg. Roedd prosesau ar waith i gael geirdaon ar gyfer unigolion cyn eu cyflogi. Roedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal ac roedd cymwysterau proffesiynol yn cael eu cadarnhau. Felly, cawsom sicrwydd fod y broses recriwtio yn un agored a theg.

Roedd staff newydd yn dilyn cyfnod sefydlu o dan oruchwyliaeth staff profiadol ar y ward. Dangosodd y staff dystiolaeth ddogfennol i ni gan esbonio'r systemau sefydlu sydd ar waith.

Darparwyd amrywiaeth o bolisiau i ni, yr oedd y mwyafrif ohonynt wedi cael eu diweddarau, ond dylai'r polisi recriwtio a'r polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth fod wedi cael ei adnewyddu yn 2024.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y polisi recriwtio a'r polisi cydraddoldeb yn cael eu hadolygu a'u diweddarau.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Ystyriodd y tîm arolygu lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant y staff, a chafodd restr o gydymffurfiaeth staff â hyfforddiant gorfodol. Roedd y ffigurau hyfforddiant a ddarparwyd i ni yn ystod yr arolygiad yn dangos bod y ffigurau cydymffurfiaeth cyffredinol yn 97.5%.

Gwelsom dystiolaeth yn ffeiliau'r staff eu bod yn cael arfarniadau blynyddol a sesiynau goruchwyllo a dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu goruchwyllo'n rheolaidd.

Roedd y lefelau staffio yn briodol i gynnal diogelwch y cleifion ar y wardiau ar adeg ein harolygiad. Dywedwyd wrthym mai prin y caiff staff asiantaeth eu defnyddio a bod staff yr ysbyty yn cyflenwi pan fydd prinder staff. Roedd prosesau hefyd ar waith i sicrhau nad oedd y staff yn gweithio gormod o oriau goramser.

Hefyd, dywedodd y staff wrthym y byddent yn teimlo'n ddiogel yn codi pryderon am ofal cleifion neu faterion eraill yn yr ysbyty a'u bod yn teimlo'n hyderus y byddai rheolwr yr ysbyty yn mynd i'r afael â'u pryderon. Roedd polisi chwythu'r chwiban ar waith i roi arweiniad ar sut y gall y staff godi pryderon.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon yr oedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Ysbyty Aber-bîg

Dyddiad yr arolygiad: 31 Mawrth, 1, 2 Ebrill 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Nid oedd unrhyw faterion uniongyrchol yn ymwneud â diffyg cydymffurfio.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ysbyty Aber-bîg

Dyddiad yr arolygiad: 31 Mawrth, 1, 2 Ebrill 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Dywedodd y cleifion wrthym fod cyfyngiad ar y defnydd o'r gampfa gan nad oedd hyfforddwr ffitrwydd ar gael.	Rhaid i'r darparwr cofrestredig wella argaeledd y gampfa i'r cleifion.	Hybu lechyd	Yn yr adolygiad nesaf o amserlenni cleifion y cyfeiriwyd atynt fel wythnos gynllunio, bydd y therapydd galwedigaethol a'r tîm nyrso yn canolbwyntio ar ofynion pob claf o ran mynediad i'r gampfa ac yn sicrhau bod camau priodol ar waith. Mae protocol	Jessica Jones/Lorena Garcia-Wright.	Wythnos yn dechrau 23 Mehefin.

				ar waith i'r tîm nyrsio gefnogi mynediad i'r gampfa y tu allan i oriau.		
2.	Prinder ardaloedd i'r cleifion eistedd a threulio amser yn yr ardd ar ward Taliesin.	Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried gosod seddi addas yng ngardd ward Taliesin.	Gofal ag Urddas	Mae'r darparwr cofrestredig wedi ystyried gosod seddi ychwanegol. Bydd yn gwneud hynny erbyn 15 Gorffennaf ar ôl cynnal asesiad risg a chwblhau'r broses ar gyfer trefnu archeb brynu. Bydd y darparwr cofrestredig yn adolygu'r risg dringo a'r lleoliad.	Leanne Hill-Phillips	2 fis.
3.	Roedd y posteri a'r taflenni gwybodaeth am eiriolaeth a oedd yn cael eu harddangos wedi dyddio ac nid oeddent yn cynnwys manylion y darparwr eiriolaeth newydd.	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl ddeunyddiau eiriolaeth yn cael eu diweddarau i adlewyrchu manylion y darparwr newydd.	Gwybodaeth i gleifion	Mae taflenni cyfredol wedi'u cynhyrchu ac mae'r eiriolwr newydd wedi cyflwyno ei hun i'r cleifion.	Jessica Jones	Wedi'i gwblhau 07/04/2025
4.	Datgelodd cyfweiliadau ag aelodau o'r staff a chleifion	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod	Gwybodaeth i gleifion.	Mae'r wybodaeth hon ar gael yn y taflenni i	Leanne Hill-Phillips	06/06/2025

	ddiffyg ymwybyddiaeth ynghylch argaeledd gwasanaethau cyfieithu	y cleifion a'r staff yn ymwybodol o'r gwasanaethau cyfieithu sydd ar gael.	Cyfathrebu ac iaith	gleifion a chaiff poster llawn gwybodaeth ei gynhyrchu a'i arddangos ar hysbysfyrddau'r wardiau.		
5.	Dywedodd y cleifion wrthym fod cyfnodau o absenoldeb yn y gymuned a gweithgareddau yn cael eu canslo'n aml oherwydd prinder staff a phrinder gyrwyr.	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau nad yw cyfyngiadau trafndiaeth a phroblemau staffio yn effeithio ar gyfleoedd y cleifion i gael cyfnod o absenoldeb yn y gymuned.	Gofal effeithiol	Mae'r darparwr cofrestredig wedi uwchgyfeirio hyn i Elysium Healthcare a bydd car awtomatig yn cael ei brynu yn lle'r Ford Kuga. Nid yw'r amserlen yn hysbys ar hyn o bryd (tua 6 mis)	Jessica Jones	Tua 6 mis.
6.	Nodwyd y materion amgylcheddol canlynol ac mae angen eu datrys: Ward Taliesin: Marciau a staeniai ar y carpedi yng nghoridorau'r		Gofal ag urddas	Aethpwyd i'r afael â'r marciau a'r	Jessica Jones/Tîm cynnal a chadw	07/04/2025

	ystafelloedd gwely; roedd angen ail-baentio rhai o'r waliau.			staeniau yn yr wythnos yn dechrau 07/04/2025.		
	Stôl wedi'i difrodi yn yr ystafell gofal dwys.			Cafodd y stôl a oedd wedi'i difrodi ei symud o'r ystafell gofal dwys - gweithredwyd 07/04/2025.	Jessica Jones/Tîm cynnal a chadw	07/04/2025
	Roedd y rhimyn o amgylch llawr yr ystafell ymolchi yn dod i ffwrdd ac roedd angen ei drwsio neu osod un newydd yn ei le.			Gosodwyd rhimyn newydd yn yr ystafell ymolchi. Gweithredwyd 07/04/2025.	Jessica Jones/Tîm cynnal a chadw	07/04/2025
					Jessica Jones/Tîm cynnal a chadw	12/06/2025

Ardal Cadw ar Wahân: Ward Bevan:	Prinder seddi yn ardal yr ardd.			Prinder seddi yn yr ardd - gweler pwynt gweithredu 1.	Jessica Jones/Tîm cynnal a chadw	07/04/2025
	Roedd angen trwsio'r bleinds a oedd wedi torri neu osod rhai newydd yn eu lle.			Bleinds yn yr ardal cadw ar wahân - gweithredwyd 07/04/2025	Jessica Jones/Tîm cynnal a chadw	07/04/2025
	Drws ar goll yn yr ystafell aml-ffydd.			Gosodwyd drws newydd yn yr ystafell aml-ffydd. Gweithredwyd	Jessica Jones/Tîm cynnal a chadw	07/04/2025
	Roedd drws yr ystafell aml-ffydd ar Ystafell Wely 5 ac roedd angen gosod			Mae'r drws cywir wedi'i ddosbarthu gan ddilyn y broses weithgynhyrchu briodol ac mae wedi'i osod.	Jessica Jones/Tîm cynnal a chadw	08/04/2025

	un newydd yn ei le.			Mae cap newydd wedi'i osod ar y ffenestr yn ystafell wely 11.	Jessica Jones/Tîm cynnal a chadw	Wythnos yn dechrau 04/08/2025
	Cap ar goll ar ffenestr Ystafell Wely 11.			Mae'r dodrefn a oedd wedi'u difrodi wedi cael eu symud i'w hail-glustogi. Camau ar waith. Disgwylir i'r dodrefn sydd wrthi'n cael eu hail-glustogi gael eu dychwelyd erbyn wythnos gyntaf mis Awst fan bellaf.	Jessica Jones a'r tîm cynnal a chadw	14/04/2025

			Mae adnodd olrhain camau gweithredu newydd ar gyfer gwaith cynnal a chadw wedi'i roi ar waith a chaiff ei adolygu gyda'r tîm cynnal a chadw bob wythnos. Bydd hyn yn sicrhau yr eir i'r afael â'r holl faterion cynnal a chadw mewn modd amserol ac, mewn arolygiadau yn y dyfodol, y bydd modd gweld pa dasgau nad ydynt wedi cael eu cyflawni a'r rheswm dros yr	
--	--	--	--	--

				oedi, os yw'n berthnasol.		
7.	Gwnaethom edrych ar Gynlluniau Gofal a Thriniaeth saith claf a nodi'r materion canlynol: - Roedd prinder amlwg o ran gwybodaeth yn nodi perthnasau agosaf ar y ffurflenni cyswllt ar Ward Bevan. - Er bod diweddariadau Adolygiadau Gofal Unigol yn rhoi tystiolaeth dda o safbwyntiau'r cleifion a dyfyniadau ganddynt, nid oedd hyn bob amser yn cael ei adlewyrchu yn yr holl gynlluniau gofal.	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cynlluniau gofal yn gynhwysfawr ac yn cynnwys gwybodaeth gywir a chyfredol sy'n adlewyrchu anghenion ac amgylchiadau presennol y cleifion.	Cadw cofnodion	- Ychwanegwyd hyn at y rhestr wirio ar gyfer derbyniadau a chaiff ei oruchwyllo gan Weinyddydd y Ddeddf Iechyd Meddwl. - Diweddariadau'r Adolygiadau Gofal Unigol - Bydd Leanne Hill-Phillips yn cydgysylltu â rheolwyr y wardiau ac yn	Diane Williams a Leanne Hill-Phillips. Leanne Hill-Phillips.	30/05/2025 30/05/2025

			yn ystod cyfarfodydd rheolwyr y wardiau a chaiff ei ddogfennu. • Caiff yr holl gynlluniau gofal COVID-19 eu hadolygu a'u cau fel y bo'n briodol. • Bydd Leanne Hill-Phillips yn cydgysylltu â rheolwyr y wardiau ac yn adolygu sut y caiff y wybodaeth hon ei rhannu. Gwneir hyn ar ddydd Gwener yn ystod		
--	--	--	---	--	--

				cyfarfodydd rheolwyr y wardiau a chaiff ei ddogfennu.		
8.	Darparwyd amrywiaeth o bolisiâu i ni, yr oedd y mwyafrif ohonynt wedi cael eu diweddarau, ond dylai'r polisi recriwtio a'r polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth fod wedi cael ei adnewyddu yn 2024.	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y polisi recriwtio a'r polisi cydraddoldeb yn cael eu hadolygu a'u diweddarau.	Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Wedi'i adolygu a'i ddiweddarau. Mae fersiwn ddiwygiedig bellach wedi'i chyhoeddi.	Sheetel Shah	27/05/2025

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Jessica Jones

Swydd: Cyfarwyddwr yr Ysbyty

Dyddiad: 29 Mai 2025